Dim Ond Cerdded Gyda Thi

Taith ddiddiwedd yw fy mywyd wedi bod erioed
Swn pob cam yn adlais ar y ffordd yn cadw oed
Os mae taith yw'r cyfan mae 'na un peth yn go glir
'Da cwmni da dy'w'r siwrne fyth yn hir.

Dwy'n hoff o drafod nonsens mewn tafarn ambell dro
A go anamal wela'r wawr yn torri dros y fro
Ac os dwy weithie'n gallu bod yn bigog ac yn boen
Ma cwmni da yn gallu codi gwen.

Dwy'n hoffi crwydro'r lonydd, fy motobeic a mi
Dwy'n hoffi crwydro'r bryniau, a'r llwybre ger y lli
Ac ambell waith dwy'n crwydro a cholli'm ffordd yn llwyr
Ond cwmni da wnaif arwain fi yn ol.

Swn yr injan, swn y tren, a chorn y llong o'r bae
Y synau 'ma sy'n peri nghalon i i guro'n glou
Dechre siwrne yw y teimlad gore sydd yw gael
'Da cwmni da mae'n siwrne heb ei ail.

Dim ond cerdded gyda thi
Am byth i gerdded gyda thi
Ar hyd yr hen, hen lwybrau
Am byth i gerdded gyda thi.

©Geraint Griffiths 1995